OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 710 (Cy.111)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - - *7 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *10 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - - *6 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 512ZB(4)(aa)(ii) a 568 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2011 ac mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

mae i "Credyd Treth Plant" a "Credyd Treth Gwaith" yr ystyr a roddir i ("*Child Tax Credit*") a ("*Working Tax Credit*") yn Neddf Credydau Treth 2002(**3**);

ystyr "Gorchymyn 2003" ("*the 2003 Order*") yw Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) 2003(**4**);

ystyr "incwm blynyddol" ("*annual income*") yw'r incwm am y flwyddyn dreth wedi ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Credydau Treth (Diffinio a Chyfrifo Incwm) 2002(**5**).

(**1**) 1996 p.56. Rhoddwyd adran 512ZB, ynghyd ag adran 512, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, a 512ZA yn lle adran 512 gan adran 201(1) o Ddeddf Addysg 2002 (p.32) ac mewnosodwyd is-adran (4)(aa) ac (c) o adran 512ZB gan adran 26(1)(c) ac (e), yn eu trefn, o Ddeddf Tlodi Plant 2010 (p.9). Am ystyr "prescribed" *gweler* adran 512(6).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2002. p. 21.

(**4**) O.S 2003/879 (Cy. 110).

(**5**) O.S. 2002/2006, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/732, 2003/2815, 2004/2663, 2006/745, 2006/766, 2007/824, 2007/1305 a 2008/2169